

Crynodeb o sefydlu planhigion yn Llwyn y Brain – 23 Gorffennaf 2019

Gwnaed asesiad gweledol o niferoedd y planhigion ar gyfer pob plot a'r % o orchudd mewn 3 cwadrat 0.1m² mewn safleoedd amrywiol.

Mae amrywiaeth sylweddol o fewn pob plot – gweler y ffotograffau isod – y pryder yw bod yr amrywiaeth yma yn ymddangos yn haenog ymhob plot – ac felly mae'n creu problemau o ran dewis yr ardaloedd i'w samplo sy'n 'gynrychioliadol o'r plot'.



Awgrymwyd rhai rhesymau am achos y llinellau clir/ardaloedd o liw a thyfiant gwahanol yma – a all fod oherwydd chwalu calch neu ddraeniad o bosibl.

Ar ôl cyfnod sefydlu anodd mae'r planhigion wedi sefydlu yn rhagorol – er bod rhai ardaloedd o dir moel yn gysylltiedig â'r ardaloedd oedd â llawer iawn o frwyn cyn eu ail-hadu (plot 4 a 5). Heb eu trin mae'r planhigion brwyn yma wedi eu chwistrellu yn cyfyngu'r cyswllt rhwng y pridd a'r hadau.

Mae'r chwyn llydanddail wedi eu cyfyngu i ychydig o farchysgallen (*Cirsium vulgare*) a llaethysgallen lefn (*Sonchus oleraceus*) a gwlydd y dom (*Cerastium fontanum* a *Stellaria media*). Y prif chwyn

glaswellt sy'n bresennol yw cynffonwellt y maes a gweunwellt unflwydd, gyda rhai darnau o faeswellt rhedegog. Mae'n ymddangos bod y rheolaeth ar frwyn wedi bod yn effeithiol gan nad oedd unrhyw blanhigion brwyn i'w gweld.

Crynodeb o'r asesiadau cwadrat

	% Tir moel	% Rhonwellt	% Rhygwellt	% Meillion gwyn	% Llyriaid
0 dril	37	0	40	2	11
chwalu	18	0	32	17	27
10 dril	15	3	33	14	17
chwalu	25	5	52	3	10
25 dril	12	11	50	7	18
chwalu	13	2	52	4	22
40 dril	12	3	52	6	5
chwalu	7	35	35	8	8
dril	19	4	44	7	13
chwalu	16	11	43	8	17

Mae tuedd fach i'r gorchudd fod yn well ar y darnau lle chwalwyd yr hadau – a mwy o ronwellt a llyriaid lle'r oedd yr hadau wedi eu chwalu ac nid eu drilio, ond nid yw'r tueddiadau yma yn gyson ar draws pob triniaeth.

Mae ychydig o bryder am y diffyg rhonwellt ym mhlotiau 5 a 6...ond mae'n ddyddiau cynnar!

Mesur y tyfiant ymhellach yr hydref hwn.

Asesiadau deunydd sych, ynghyd â dadansoddiad cemegol am ME a CP a gwahanu'r tyfiant i asesu cyfansoddiad y gwndwn yn ôl ei bwysau.



Asesiadau cynnyrch planhigion (31 Gorffennaf 2019)

Dechreuwyd pori'r plotiau ar 12 Gorffennaf (219 o wŷyn) – a 343 o ddefaid blwydd yn ychwanegol o 28 Gorffennaf gan ei fod yn mynd yn drech na'r wŷyn.

$(19 \times 219) + (343 \times 3) = 5190$ o ddyddiau pori hyd yn hyn


$5190 \times 1.2\text{kgDM/yr oen/y dydd} = 6228\text{kgDM}$ wedi ei bori hyd yn hyn

Dros 8ha o blotiau sy'n cyfateb i gyfartaledd o 780kgDM ar bob plot oedd wedi ei bori

Nid oedd digon o dyfiant yn yr ardal reoli dan y plotiau i'w samplu

Aseswyd y gorchudd ar gyfartaledd dan gewyll cau allan ar 2804kgDM/ha – sy'n cyfateb i dyfiant ar gyfartaledd o 43kgDM/ha ers ei hadu.

Roedd gorchudd cyfartalog y fferm yn 2291kgDM/ha – sydd dros y targed o 2000kgDM/ha – ac nid yw'r gwndwn pori wedi ei sefydlu yn llawn eto (llinell las = targed yn fras)



Mae gorchudd y plotiau yn amrywiol iawn – gyda'r mesuriadau yn y cewyll yn amrywio o 1700kgDM/ha i 3900kgDM/ha – mae'r cewyll wedi cael eu symud i ardaloedd sy'n fwy cynrychioliadol o bob plot.

Bydd hanner y defaid blwydd yn cael eu symud yr wythnos hon – gan adael tua 390 o anifeiliaid ar y plotiau (cyfradd stocio o bron i 50/ha) – ac efallai y bydd angen cynyddu hynny os bydd y cyfraddau tyfu yn mynd dros 65kgDM/ha/y dydd.

Ar y cyfnod hwn o'r tymor nid yw'n broblem fawr bod plot 6 wedi ei or-bori braidd – ond mae angen gofal wrth i ni symud i'r hydref bod y gweddill yn cael eu targedu at yn nes at 1200kgDM/ha.

Roedd erthygl yn ddiweddar yn 'Beef and Sheep News' yn atgynhyrchu data o Seland Newydd am wndwn llyriaid/ysgellog (rwy'n tybio eu bod yn wndwn pur yn hytrach nag yn gymysg â glaswellt) – ond mae'n awgrymu y gall darlleniadau mesuryddion plât yn seiliedig ar hafaliadau safonol ($\times 125 + 640$) fod yn tan-amcangyfrif y gorchudd o lyriaid/ysgellog yn yr haf.

Mae eu hafaliadau yn newid yn ddramatig yn hwyr yn y tymor a gall y gwrthwyneb fod yn wir mewn tywydd gwlyb- o ran bod cynnwys sych ysgellog/llyriaid yn gostwng mae tuedd i or-amcangyfrif y gorchudd cynnwys sych gan ddefnyddio hafaliadau safonol y Deyrnas Unedig.

Measuring Plantain and Chicory

Massey University have done trials on Plantain and Chicory swards which has led them to produce a specifically designed sward stick. They recommend going in at 15 cm and out at 7 cm. To feed budget, we need to determine kilograms of dry matter per hectare (kg DM/ha). They produced the following equations to convert sward height or plate meter readings to kg DM/ha.

	Sward height conversion	Plate meter equation
Early Spring	SH x 121.1 + 1603.9	PM x 84.4 + 1794.6
Late Spring	SH x 144 + 1569.8	PM x 95 + 1752.4
Summer	SH x 135.1 + 1396.7	PM x 83.7 + 1716.1
Autumn	SH x 104.7 + 854	PM x 75.5 + 1019.8

SH= Sward height; PM= plate meter reading

Alternatively, see ready reckoner below (kg DM/ha):

cm	Early Spring	Late Spring	Summer	Autumn
5	2209	2290	2072	1378
6	2331	2434	2207	1482
7	2452	2578	2342	1587
8	2573	2722	2478	1692
9	2694	2866	2613	1796
10	2815	3010	2748	1901
11	2936	3154	2883	2006
12	3057	3298	3018	2110
13	3178	3442	3153	2215
14	3299	3586	3288	2320
15	3420	3730	3423	2425
16	3542	3874	3558	2529

cm	Early Spring	Late Spring	Summer	Autumn
17	3663	4018	3693	2634
18	3784	4162	3829	2739
19	3905	4306	3964	2843
20	4026	4450	4099	2948
21	4147	4594	4234	3053
22	4268	4738	4369	3157
23	4389	4882	4504	3262
24	4510	5026	4639	3367
25	4631	5170	4774	3472
26	4753	5314	4909	3576
27	4874	5458	5044	3681

Poppy Frater, SAC Consulting Sheep Specialist
poppy.frater@sac.co.uk